Cyllid & Tollau EM

# Hawlio trosglwyddiad o unrhyw haen cyfradd sero preswyl sydd heb ei defnyddio

Atodlen IHT436

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i hawlio haen cyfradd sero preswyl trosglwyddadwy (TRNRB) yn erbyn y Dreth Etifeddiant ar ystâd yr ymadawedig.

Llenwch y ffurflen hon os yw'r canlynol yn wir:

- rydych yn hawlio haen cyfradd sero preswyl (RNRB) yn yr ystâd hon (bydd angen i chi hefyd lenwi ffurflen IHT435)
- roedd gan yr ymadawedig briod neu bartner sifil a fu farw cyn yr ymadawedig
- bu farw'r priod neu'r partner sifil cyn 6 Ebrill 2017, neu bu farw ar ôl y dyddiad hwnnw heb ddefnyddio'r holl RNRB a oedd ar gael iddo

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hawlio TRNRB, ewch i www.gov.uk/guidance/inheritance-tax-residence-nil-rate-band

Gall unrhyw RNRB sydd heb ei defnyddio gan briod neu bartner sifil a fu farw cyn yr ymadawedig gynyddu cyfanswm yr RNRB sydd ar gael ar ystâd yr ymadawedig. Mae hyn yn caniatáu i fwy o'r ystâd gael ei gadael heb i unrhyw Dreth Etifeddiant fod yn daladwy. Ewch i dudalen 3 am nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon.

**Dyddiad cau**

Rhaid i chi anfon y ffurflen hon atom cyn pen 24 mis ar ôl diwedd y mis pan fu farw'r ymadawedig. Er enghraifft, os bu'r priod neu'r partner sifil farw ar 15 Mai 2006, a bu farw'r ymadawedig ar 10 Hydref 2007, byddai angen i chi anfon y ffurflen hon atom erbyn 31 Hydref 2009.

**Cyfenw'r ymadawedig**

**Enwau cyntaf yr ymadawedig**

**Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant**

## Help

I gael rhagor o wybodaeth neu help:

- ewch i www.gov.uk/guidance/ffurflenni-cthem#treth-etifeddiant neu ewch i www.gov.uk/inheritance-tax
- ffoniwch ein llinell gymorth ar 0300 200 1900 - os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900

## Manylion y priod neu'r partner sifil

1 **Teitl** Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl arall

**Cyfenw neu enw teuluol**

**Enwau cyntaf**

2 **Dyddiad y briodas neu bartneriaeth sifil** DD MM BBBB

3 **Lleoliad priodi neu ffurfio'r bartneriaeth sifil**
Enw'r adeilad, yr eglwys neu'r swyddfa gofrestru a'r ardal

4 **Dyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil** DD MM BBBB

5 **Cyfeirnod Treth Etifeddiant ar gyfer ystâd y priod neu'r partner sifil**

6 **A ddefnyddiwyd unrhyw RNRB yn ystâd y priod neu'r partner sifil?**

Naddo ☐ Os Naddo, cwblhewch gwestiynau 7 i 15 yn unig

Os bu farw'r priod neu'r partner sifil ar neu cyn 5 Ebrill 2017 ni allai ei ystâd fod wedi defnyddio unrhyw RNRB felly cwblhewch gwestiynau 7 i 15

Do ☐ Os Do, cwblhewch gwestiynau 16 i 22 yn unig

### Cwblhewch gwestiynau 7 i 15 os na ddefnyddiwyd RNRB ar ystâd priod neu bartner sifil yr ymadawedig

7 **Cyfanswm gwerth net ystâd y priod neu'r partner sifil cyn eithriadau neu ryddhad**

£ . 0 0

8 **Gwerth y trothwy meinhau ar ddyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil** (ewch i nodyn 4 ar dudalen 3)

£ . 0 0

Os yw'r gwerth yng nghwestiwn 7 yn llai na'r gwerth yng nghwestiwn 8, nodwch 100.0000% ym mlwch 13 ac ewch ymlaen i gwestiwn 14. Os yw'r gwerth yng nghwestiwn 7 yn fwy na'r gwerth yng nghwestiwn 8 ewch ymlaen i gwestiwn 9

**9** **Didynnwch y gwerth yng nghwestiwn 8 o'r gwerth yng nghwestiwn 7**

£ . 0 0

**10** **Rhannwch y gwerth yng nghwestiwn 9 â 2**

£ . 0 0

Dyma faint o feinhau sy'n berthnasol

**11** **Nodwch werth y Gwelliant Preswyl ar ddyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil**
(ewch i nodiadau 1 a 2 ar dudalen 3)

£ . 0 0

**12** **Didynnwch y gwerth yng nghwestiwn 10 o'r gwerth yng nghwestiwn 11**

£ . 0 0

Dyma'r RNRB sydd heb ei defnyddio o'r farwolaeth gynharach. Os yw'r gwerth hwn yn negyddol, nid oes RNRB sydd heb ei defnyddio ar gael i'w throsglwyddo ac rydych wedi gorffen llenwi'r ffurflen hon

**13** **Rhannwch y gwerth yng nghwestiwn 12 â'r gwerth yng nghwestiwn 11 a lluoswch â 100.**
Defnyddiwch 4 lle degol

. %

Dyma gyfran yr RNRB sy'n cael ei thrin fel petai heb ei defnyddio ar farwolaeth y priod neu'r partner sifil - ni all hyn fod yn fwy na 100.0000%

**14** **Nodwch werth y Gwelliant Preswyl ar gyfer y person yr ydych yn delio â'i ystâd nawr**
(ewch i nodiadau 1 a 2 ar dudalen 3)

£ . 0 0

**15** **Lluoswch y gwerth yng nghwestiwn 14 â'r ganran yng nghwestiwn 13**

£ . 0 0

Dyma faint o'r RNRB sydd ar gael i'w throsglwyddo

Nawr ewch i gyfrifiannell yr haen cyfradd sero preswyl yn www.gov.uk/guidance/inheritance-tax-residence-nil-rate-band i gyfrifo'r hawl llawn i RNRB ar farwolaeth yr ymadawedig

## Cwblhewch gwestiynau 16 i 22 os oedd unrhyw RNRB wedi'i defnyddio ar ystâd y priod neu'r partner sifil

**16** **Beth oedd y 'Lwfans Diofyn' neu'r 'Lwfans sydd wedi'i Addasu' ar farwolaeth y priod neu'r partner sifil?**
(Ewch i nodyn 5 ar dudalen 3)

£ . 0 0

**17** **Beth oedd swm yr RNRB a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd ar ystâd y priod neu'r partner sifil?**

£ . 0 0

**18** **Didynnwch y gwerth yng nghwestiwn 17 o'r gwerth yng nghwestiwn 16**

£ . 0 0

Dyma'r RNRB sydd heb ei defnyddio o'r farwolaeth gynharach

**19** **Nodwch werth y Gwelliant Preswyl ar ddyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil**
(ewch i nodiadau 1 a 2 ar dudalen 3)

£ . 0 0

**20** **Rhannwch y gwerth yng nghwestiwn 18 â'r gwerth yng nghwestiwn 19 a lluoswch â 100.**
Defnyddiwch 4 lle degol

. %

Dyma gyfran yr RNRB sy'n cael ei thrin fel petai heb ei defnyddio ar farwolaeth y priod neu'r partner sifil

**21** **Nodwch werth y Gwelliant Preswyl ar gyfer y person yr ydych yn delio â'i ystâd nawr**
(ewch i nodiadau 1 a 2 ar dudalen 3)

£ . 0 0

**22** **Lluoswch y gwerth yng nghwestiwn 21 â'r ganran yng nghwestiwn 20**

£ . 0 0

Dyma faint o'r RNRB sydd ar gael i'w throsglwyddo

Nawr ewch i gyfrifiannell yr haen cyfradd sero preswyl yn www.gov.uk/guidance/inheritance-tax-residence-nil-rate-band i gyfrifo'r hawl llawn i RNRB ar farwolaeth yr ymadawedig

## Nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon

**1. Gwelliant Preswyl**

Gwelliant Preswyl (RE) yw'r lefel uchaf o'r haen cyfradd sero preswyl (RNRB) ar gyfer unigolyn mewn blwyddyn dreth benodol. Gellir lleihau'r uchafswm hwn os yw ystâd y person yn fwy na'r trothwy meinhau (ewch i nodyn 5 isod).

Y ganran heb ei defnyddio o'r RNRB sydd wedi'i throsglwyddo yw hon, nid y swm sydd heb ei ddefnyddio.

**2. Cyfraddau'r Gwelliant Preswyl**

Swm y Gwelliant Preswyl yn y blynyddoedd treth canlynol yw:

- £100,000 hyd at 5 Ebrill 2018
- £125,000 yn 2018 i 2019
- £150,000 yn 2019 i 2020
- £175,000 yn 2020 i 2026

Os bu farw'r priod neu'r partner sifil cyn 6 Ebrill 2017, ystyrir mai £100,000 oedd y Gwelliant Preswyl bryd hynny.

**3. Disgynyddion uniongyrchol**

Disgynyddion uniongyrchol yr ymadawedig, er enghraifft, yw plant, wyrion, gor-wyrion neu or-or-wyrion.

Ac at ddibenion RNRB mae 'plentyn' yn cynnwys:

- plentyn sydd, neu a oedd, yn llysblentyn i'r ymadawedig
- plentyn sydd wedi'i fabwysiadu a oedd yn blentyn i'r ymadawedig
- plentyn maeth sy'n cael ei drin fel plentyn i'r ymadawedig

Os oedd yr ymadawedig yn warcheidwad penodedig neu'n warcheidwad arbennig i blentyn a oedd o dan 18 oed bryd hynny, caiff y plentyn ei drin fel plentyn i'r ymadawedig

At ddibenion RNRB nid oes rhaid i 'blentyn' fod o dan 18 oed ar ddyddiad marwolaeth yr ymadawedig, ac mae 'llysblentyn' wedi'i gyfyngu i rywun y mae ei riant, neu yr oedd ei riant, yn briod neu'n bartner sifil i'r ymadawedig.

Mae disgynyddion uniongyrchol hefyd yn cynnwys priod neu bartner sifil, er enghraifft, y plant, wyrion neu'r gor-wyrion, (gan gynnwys ei wraig weddw, ei ŵr gweddw neu bartner sifil sy'n goroesi, ar yr amod nad oedd y wraig weddw, y gŵr gweddw na'r partner sifil sy'n goroesi wedi ailbriodi na dechrau partneriaeth sifil newydd cyn dyddiad marwolaeth yr ymadawedig).

Nid yw disgynyddion uniongyrchol yn cynnwys neiaint, nithoedd, brodyr neu chwiorydd neu berthnasau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr uchod.

**4. Trothwy meinhau**

Y trothwy meinhau yn y blynyddoedd treth canlynol yw £2 filiwn rhwng 6 Ebrill 2017 a 5 Ebrill 2026. Os bu farw'r priod neu'r partner sifil cyn 6 Ebrill 2017, ystyrir mai £2 filiwn oedd y trothwy meinhau.

Mae'r gwelliant preswyl yn meinhau'n raddol, ar gyfer ystâd sy'n werth mwy na £2 filiwn hyd yn oed os yw cartref yn cael ei adael i ddisgynyddion uniongyrchol. Bydd y Gwelliant Preswyl yn gostwng £1 am bob £2 y mae gwerth yr ystâd dros y trothwy meinhau, sef £2 filiwn.

Gall meinhau hefyd leihau faint o'r gwelliant preswyl sydd heb ei ddefnyddio sydd ar gael i'w drosglwyddo i briod neu bartner sifil sydd wedi goroesi, pan fydd y cyntaf o'r cwpl yn marw.

**5. Lwfans Diofyn neu Lwfans sydd wedi'i Addasu**

Lwfans Diofyn ar gyfer ystâd unigolyn yw cyfanswm y Gwelliant Preswyl (ewch i nodyn 2 uchod) ynghyd ag unrhyw RNRB sydd wedi'i throsglwyddo yr oedd ganddo hawl iddo. Os oedd ei ystâd yn fwy na'r trothwy meinhau (ewch i nodyn 4 uchod), caiff y 'Lwfans Diofyn' ei ostwng neu ei feinhau.

Gelwir y gwerth gostyngol hwn yn 'Lwfans sydd wedi'i Addasu'. Os bydd meinhau'n berthnasol i ystâd y priod neu'r partner sifil, bydd angen i chi nodi'r 'Lwfans sydd wedi'i Addasu' yng nghwestiwn 16. Os nad oedd meinhau'n berthnasol ar ystâd y priod neu'r partner sifil, mae'n rhaid i chi gynnwys y 'Lwfans Diofyn'.

Os defnyddiwyd RNRB ar ystâd y priod neu'r partner sifil, dylai'r gwerthoedd hyn fod wedi'u datgan ar ei Ddatganiad Treth Etifeddiant.